**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

—

**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Ken Skates, AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru
Jayne Bryant AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai

26 Chwefror 2026

Annwyl Jayne a Ken,

Bil y Lluoedd Arfog

Fe wnaeth y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol gyfarfod ar 23 Chwefror 2026 i ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ynghylch Bil y Lluoedd Arfog.

Cododd yr Aelodau nifer o gwestiynau a hoffent gael gwybod y canlynol:

- Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael â Llywodraeth y DU o ran darparu cyllid i dalu cost gweithredu'r Bil;
- beth yw barn Llywodraeth Cymru ar Gymal 3 ac a oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw bryderon ynghylch y defnydd posibl o bwerau prynu gorfodol yng Nghymru gan y Gwasanaeth Tai Amddiffyn; a hefyd
- a yw Llywodraeth Cymru wedi gofyn am eglurhad ar sut y disgwylir i'r Gwasanaeth Tai Amddiffyn weithio gyda Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yng Nghymru.

O ystyried y dyddiadau cau tynn sydd ar ddod ar gyfer adrodd yn yr achos hwn, edrychwn ymlaen at glywed gennych a byddem yn gwerthfawrogi ymateb erbyn 9 Mawrth 2026.

Mae'r llythyr hwn yn cael ei rannu gyda'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai.

Yn gywir,



Jenny Rathbone AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol